| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol – Y Gronfa Ffyniant Gyffredin** |
| **Lleoliad:** | **Sefydliad Glynebwy, Glynebwy** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Addysg** |
| **Cyfeirnod / Rhif y Swydd:** | **BG12318** |
| **Cyflog:** | **Gradd 6 (£32,115 - £36,124 y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Contract:** | **Cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2026** |

**Commented [HR1]:** Spelling mistake in logo: should be "Bwrdeistref"

**Crynodeb o'r Swydd**

Bydd y Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol – Y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu cefnogaeth, arweiniad a mentora i bobl ifanc 11-25 oed y nodir eu bod mewn perygl o ddod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) neu sydd yn NEET ar hyn o bryd. Yn dibynnu ar anghenion y bobl ifanc a nodwyd, bydd disgwyl i'r gweithiwr ieuenctid weithio tuag at ganlyniadau'r timau 11-16 neu 16-25 o fewn y prosiect trwy waith grŵp neu ar sail unigol.

**Mae'r swyddi hyn wedi'u cysylltu'n benodol â lleoliadau addysgol prif ffrwd ledled Blaenau Gwent. Yn bennaf, bydd deiliaid y swydd yn creu pecynnau cymorth pwrpasol ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed. Mae'r swyddi hyn hefyd yn cynnwys disgwyliad o ddarparu cymorth ehangach yn y gymuned y tu allan i oriau ysgol graidd a gyda'r nos.**

**Hysbyseb Lawn**

Mae cyfle cyffrous a gwerth chweil wedi agor i unigolyn brwdfrydig ymuno â thîm Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod a helpu i ddarparu mentora, cymorth, gwybodaeth ac arweiniad i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET neu sydd yn NEET ar hyn o bryd.

Fel gweithiwr ieuenctid a chymunedol, byddwch yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc i nodi rhwystrau personol i gael cyflogaeth, addysg a/neu hyfforddiant ac yn helpu i gynllunio a darparu cyfleoedd hyfforddi i'w helpu i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan lawn yn yr holl gyfleoedd sydd ar gael.

Byddwch yn datblygu cysylltiadau cryf gyda darparwyr addysg/hyfforddiant ac asiantaethau gyrfa/cyflogaeth er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y person ifanc a goresgyn rhwystrau i bobl ifanc rhag cyrchu gwybodaeth am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae cymhwyster proffesiynol perthnasol mewn gwaith ieuenctid a'r gallu i gofrestru fel 'gweithiwr ieuenctid' gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (Cymru) yn hanfodol ar gyfer y rôl. Mae profiad blaenorol o weithio gyda phobl ifanc mewn perygl, gan gynnwys darparu mentora a chefnogaeth, hefyd yn hanfodol.

*Os ydych chi wedi astudio Gwaith Ieuenctid fel rhan o gymhwyster a fyddai'n caniatáu i chi gael eich cofrestru fel 'gweithiwr ieuenctid' gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, ac nid yw hyn wedi'i nodi'n glir yn nheitl y cymhwyster, dylid nodi yn eich cais yr hyn a wnaed ac i ba lefel.*

Mae sgiliau sydd eu hangen yn cynnwys:

- sgiliau rhyngbersonol/cyfathrebu rhagorol gyda'r gallu i uniaethu â phobl ifanc ac ennyn eu brwdfrydedd
- y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm amlasiantaeth
- y gallu i asesu anghenion pobl ifanc a datblygu cynlluniau gweithredu priodol
- lefel uchel o gadernid personol, gan gynnwys y gallu i reoli gwrthdaro a delio â sefyllfaoedd llawn straen

**Gellir cynnig y swydd hon fel cyfle secondiad hefyd. Cyn gwneud cais amdani fel cyfle secondiad, dylai ymgeiswyr ofyn am gymeradwyaeth eu rheolwr llinell i gael eu rhyddhau o'u swydd bresennol.**

**Mae secondiadau ar gael i staff parhaol yr awdurdod yn unig.**

**Mae'r swydd yn cynnwys Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol Cymeradwy felly mae'r gallu i ddefnyddio cerbyd at ddibenion gwaith yn ofyniad.**

**Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd lenwi cais am ddatgelu cofnodion troseddol.**

**Dyddiad Cau: 24 Ebrill 2025**

**Dyddiad y Cyfweliad: 7 Mai 2025**